Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2019 Rhif 299 (Cy. 76)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) (Diwygio) 2019

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn amnewid y darpariaethau arbed a throsiannol ym mharagraffau (2) i (6) o reoliad 65 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017").

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Atodlen 2 i Reoliadau 2017 i ychwanegu gosod llinellau trydan uwchben penodol. Effaith y diwygiad hwn yw y gallai fod angen cynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol mewn cysylltiad â datblygiad o'r fath cyn rhoi caniatâd cynllunio.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2019 Rhif 299 (Cy. 76)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) (Diwygio) 2019

Gwnaed *18 Chwefror 2019*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *20 Chwefror 2019*

Yn dod i rym *1 Ebrill 2019*

Mae Gweinidogion Cymru, sydd wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) mewn perthynas â'r gofyniad am asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd gan brosiectau sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd, i'r graddau y mae'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref(**2**), drwy arfer y pwerau a roddir gan yr adran honno a chan adran 71A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

(**1**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) ac adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7), a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.

(**2**) O.S. 2007/1679. *Gweler* erthygl 4.

(**3**) 1990 p. 8. Mewnosodwyd adran 71A gan adran 15 o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo: *gweler* y cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer y Ddeddf honno. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, ac yr oedd y swyddogaethau hynny yn swyddogaethau perthnasol y Cynulliad fel y'u diffinnir ym mharagraff 30(2).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) (Diwygio) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2019.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 2017" yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017(**1**).

Diwygio Rheoliadau 2017

2.—(1) Mae Rheoliadau 2017 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 65—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "(2) i (8)" rhodder "(2), (7) ac (8)";

(b) yn lle paragraffau (2) i (6) rhodder—

"(2) Mae Rheoliadau 2016 yn parhau i gael effaith pan fo, cyn 16 Mai 2017—

(a) y ceisydd neu'r apelydd wedi cyflwyno datganiad amgylcheddol neu wedi gofyn am farn gwmpasu mewn cysylltiad â'r datblygiad; neu

(b) mewn cysylltiad â—

(i) gorchmynion datblygu lleol;

(ii) gorchmynion adran 97;

(iii) gorchmynion adran 102; neu

(iv) cam gweithredu o dan adran 141 o Ddeddf 1990,

yr awdurdod cynllunio lleol, y corff cychwyn neu'r ceisydd wedi llunio datganiad amgylcheddol neu farn gwmpasu neu wedi gofyn am gyfarwyddyd cwmpasu mewn cysylltiad â'r gorchymyn neu'r cam gweithredu hwnnw.";

(c) ym mharagraff (9), yn lle "(2) i (8)" rhodder "(2), (7) ac (8)".

(3) Ym mharagraff 1 o Atodlen 2, yn y lle priodol mewnosoder—

"mae i "llinell drydan" yr ystyr a roddir i "electric line" yn adran 64(1) o Ddeddf Trydan 1989(**2**)."

(4) Yn y tabl ym mharagraff 2 o Atodlen 2, ar ddiwedd pwnc 3 (Diwydiant ynni) mewnosoder—

(**1**) O.S. 2017/567 (Cy. 136), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/1012 ac O.S. 2018/1216 (Cy. 249).
(**2**) 1989 p. 29.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"(k) Trosglwyddo ynni trydanol drwy geblau uwchben.	Datblygiad i ddarparu llinell drydan a osodir uwchben y ddaear sydd â foltedd enwol o 132 o gilofoltiau."

Julie James
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
18 Chwefror 2019